# Sgrinio Coluddion Cymru

## Llyfryn gwybodaeth i gartrefi gofal a gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig

Sgrinio Coluddion Cymru Bowel Screening Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**0800 294 3370**

**www.icc.gig.cymru/sgrinio-coluddion**

Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd yn cymryd yr un faint o amser i ni eich ateb, pa bynnag iaith a ddewiswch.

Fersiwn 4 12/2024

# Cynnwys


| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | 1 | Tudalen 3 | Pwy yw Sgrinio Coluddion Cymru? |
| **Adran** | 2 | Tudalen 4 | Beth yw sgrinio? |
| **Adran** | 3 | Tudalen 5 | Hyrwyddo Dewis ar sail Gwybodaeth |
| **Adran** | 4 | Tudalen 6 | Galluedd Meddyliol |
| **Adran** | 5 | Tudalen 7 | Pethau i'w cofio cyn gwneud pecyn prawf sgrinio'r coluddyn |
| **Adran** | 6 | Tudalen 9 | Arwyddion a symptomau |
| **Adran** | 7 | Tudalen 10 | Senarios |
| **Adran** | 8 | Tudalen 15 | Cwestiynau Cyffredin |
| **Adran** | 9 | Tudalen 18 | Manylion cyswllt |

# Pwy yw Sgrinio Coluddion Cymru?

Cawn ein rheoli gan yr Is-adran Sgrinio sy’n rhan o Ymddiriedolaeth GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru. Lansiwyd y rhaglen sgrinio coluddion ym mis Hydref 2008.

**Beth yw nod y rhaglen?**
Canser y coluddyn yw'r trydydd canser mwyaf cyffredin yng Nghymru. Nôd prawf sgrinio'r coluddyn yw dod o hyd i ganser yn gynnar pan nad oes unrhyw arwyddion na symptomau. Mae canfod yn gynnar yn allweddol. Bydd o leiaf 9 o bob 10 unigolyn yn goroesi canser y coluddyn os caiff ei ddarganfod a'i drin yn gynnar.

**Pwy sy'n cael gwahoddiad?**
Ar hyn o bryd, mae prawf sgrinio’r coluddyn yn cael ei gynnig i bobl rhwng 50 a 74 oed ac sy’n byw yng Nghymru. Mae prawf sgrinio’r coluddyn hefyd ar gael i bobl sydd mewn cyfleuster preswyl nad ydynt wedi cofrestru gyda meddyg teulu, byddai’n ofynnol i’r gweithiwr iechyd proffesiynol gysylltu â’r rhaglen Sgrinio Coluddion ar y llinell gymorth rhadffôn 0800 294 3370.

**Sut mae pobl yn cael eu gwahodd i gael eu sgrinio?**
Rydym yn cael gwybodaeth am gyfeiriadau gan feddygon teulu yn uniongyrchol. Mae'n bwysig bod cyfeiriad cywir y person wedi’i gofrestru gyda'r meddyg teulu. Nid ydym yn cadw unrhyw wybodaeth feddygol.
Bydd pecyn prawf sgrinio'r coluddyn a phecyn gwybodaeth yn cael eu hanfon atoch yn y post. Bydd pobl yn gallu cynnal y prawf yn breifat, lle maen nhw’n byw.

**Pa mor aml mae pobl yn cael eu gwahodd i gael eu sgrinio?**
Bydd pobl yn cael eu gwahodd yn awtomatig i gymryd rhan yn rhaglen sgrinio’r coluddyn bob dwy flynedd.

**Hanes teuluol**
Gall rhai mathau o ganser y coluddyn redeg mewn teuluoedd. Os ydych chi neu'r person rydych yn gofalu amdano yn poeni am hanes teuluol, dylech siarad â meddyg teulu.

# Beth yw sgrinio?

**Mae sgrinio, yn ôl diffiniad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (2021):**
Yn broses o ddynodi pobl sy'n ymddangos yn iach a allai fod mewn mwy o berygl o fod ag afiechyd neu gyflwr. Yna gellir cynnig gwybodaeth, profion pellach a thriniaeth briodol i leihau'r risg iddynt a/neu unrhyw gymhlethdodau sy'n deillio o'r afiechyd neu'r cyflwr.

# Y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â sgrinio

Dewis unigolyn yw cymryd rhan mewn sgrinio. Mae'n bwysig ei fod yn deall y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â sgrinio er mwyn ei helpu i benderfynu a yw'n iawn iddo gymryd rhan.

**Y manteision sy'n gysylltiedig â sgrinio:**

- Bydd dod o hyd i ganser y coluddyn yn gynnar yn rhoi'r cyfle gorau i berson oroesi.
- Mae o leiaf 9 o bob 10 unigolyn yn goroesi canser y coluddyn os caiff ei ddarganfod yn gynnar.
- Gall prawf sgrinio'r coluddyn helpu i ddod o hyd i ganser y coluddyn yn gynnar, hyd yn oed os yw person yn iach ac nad oes ganddo unrhyw symptomau.
- Gall pobl gwblhau pecyn prawf y coluddyn lle maen nhw'n byw.
- Mae pecyn prawf y coluddyn yn gyflym ac yn hawdd i'w gwblhau a dim ond un sampl bach o pŵ sydd ei angen.

**Y risgiau sy'n gysylltiedig â sgrinio:**

- Nid yw prawf sgrinio'r coluddyn 100% yn gywir.
- Mae'n bosibl na fydd rhai mathau o ganser yn cael eu darganfod ac mae'n bosibl na fydd rhai mathau o ganser yn cael eu gwella.
- Mae'n bosibl y bydd risgiau wrth gael profion pellach. Os bydd gofyn i berson gael mwy o brofion, bydd nyrs sgrinio neu feddyg yn siarad ag ef am y rhain.

# Hyrwyddo dewis ar sail gwybodaeth

Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UK NSC) yn diffinio dewis personol ar sail gwybodaeth fel:

Penderfyniad a wneir i dderbyn neu wrthod prawf sgrinio ar sail mynediad at wybodaeth hygyrch, gywir sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cwmpasu:

- y cyflwr y mae'r sgrinio'n chwilio amdano
- y broses brofi
- y risgiau, cyfyngiadau, manteision ac ansicrwydd
- y canlyniadau posibl a'r penderfyniadau wedi hynny

**Sut gallaf i helpu rhywun i wneud dewis ar sail gwybodaeth?**

Er mwyn gwneud dewis ar sail gwybodaeth, rhaid i berson gael:

- Mynediad at wybodaeth glir, gryno a chywir, mewn fformat priodol
- Cymorth pellach, os oes angen, i'w helpu i ddeall y gwybodaeth am sgrinio
- Amser i ystyried a dygymod â'r wybodaeth
- Y galluedd i wneud ei benderfyniadau ei hunan

Ar y cam hwn dylai'r person allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth a chadarnhau ei benderfyniad drwy roi cydsyniad ar sail gwybodaeth (caniatâd) i gymryd rhan mewn prawf sgrinio neu beidio.

**Gwneud penderfyniadau**

Fel gweithiwr gofal iechyd neu ddarparwr gofal iechyd efallai y credwch bod cymryd rhan mewn prawf sgrinio yn syml. I rai pobl, mae hyn yn wir. Fodd bynnag, i eraill, gall cymryd rhan mewn prawf sgrinio fod yn broses gymhleth, gyda nifer o ffactorau i'w hystyried.

Fel rhywun sy'n cefnogi defnyddwyr gwasanaeth neu gleientiaid, efallai na fyddwch bob amser yn cytuno â phenderfyniad unigolyn. Yn wir, efallai y credwch ei fod wedi gwneud penderfyniad annoeth. Ar lefel broffesiynol neu bersonol, gall hyn fod yn heriol iawn.

Mae'n rhaid i chi gofio mai eich rôl chi yw darparu'r wybodaeth gywir i'r person (mewn fformat priodol) fel y gall wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth o ran cymryd rhan mewn prawf sgrinio neu beidio. Os yw'r person yn gallu gwneud penderfyniad, mae'n hanfodol cofio fod yn **rhaid** derbyn **ei benderfyniad** fel yr un **terfynol** .

# Galluedd Meddyliol

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu fframwaith ar gyfer asesu a oes gan berson alluedd (y gallu) i wneud penderfyniadau ac mae’n diffinio sut y gall eraill wneud penderfyniadau ar ran rhywun nad yw’n gallu gwneud hynny.

Efallai y bydd rhaid i chi gefnogi defnyddwyr gwasanaeth sydd â lefelau amrywiol o alluedd (neu ddim o gwbl). Mae’n bwysig iawn eich bod yn gwybod beth allwch chi a beth na allwch chi ei wneud mewn perthynas â’r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Bydd cod ymarfer y ddeddf hefyd yn rhoi arweiniad ar sut i ddilyn y ddeddf.

Bydd unrhyw gartref gofal sydd â phreswylwyr â dementia neu anableddau dysgu yn cael eu heffeithio’n uniongyrchol gan y ddeddf. Bydd disgwyl i gartrefi gofal ddarparu tystiolaeth o asesu galluedd pobl ac unrhyw benderfyniadau y maent wedi'u gwneud er 'lles pennaf' person dan y ddeddf.

## Diffiniad o alluedd

Mae’r ddeddf yn diffinio diffyg galluedd fel a ganlyn:

> 'Nid oes gan berson alluedd os oes nam ar y meddwl neu aflonyddwch yng ngweithrediad y meddwl mewn rhyw ffordd. Ni all ddefnyddio na phwyso a mesur gwybodaeth i wneud penderfyniadau ynghylch ei ofal na’i driniaeth a chyfleu unrhyw benderfyniad a wneir’ (Asesu Gallu: Cydsynio i driniaeth NHS.co.uk, 2022).

**Egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Galluedd Meddyliol.**
Mae gan y Ddeddf Galluedd Meddyliol **bum prif egwyddor**.

**Wrth asesu galluedd:**

1. **Rhaid** i chi gymryd bod gan berson y galluedd i wneud penderfyniad oni bai y profir fel arall.
2. Hyd nes y byddwch wedi cymryd **pob cam ymarferol** i helpu rhywun i wneud penderfyniad ond y bu hyn yn aflwyddiannus, ni allwch drin y person fel rhywun nad oes ganddo alluedd.
3. **Nid yw penderfyniad annoeth** ynddo'i hun yn dangos nad oes gan y person alluedd.

**Wrth weithredu neu wneud penderfyniadau ar ran rhywun nad oes ganddo alluedd:**

4. Rhaid i unrhyw beth a wnewch neu unrhyw benderfyniad a wnewch fod **er lles pennaf y person.**
5. Rhaid i unrhyw weithred neu benderfyniad fod yr opsiwn sy’n cyfyngu lleiaf ar y person o ran ei hawliau a’i ryddid i weithredu.

Yn ddiweddarach yn y llyfryn hwn fe welwch nifer o astudiaethau achos sy'n ymwneud yn benodol â phrawf sgrinio'r coluddyn.

# Pethau i'w cofio cyn gwneud pecyn prawf sgrinio'r coluddyn

Os ydych chi'n weithiwr gofal iechyd neu'n ddarparwr gofal iechyd a’ch bod wedi cael cais i helpu rhywun i wneud y prawf, efallai y bydd yr adran hon yn ddefnyddiol gan ei bod yn dweud wrthych sut i ddefnyddio pecyn prawf y coluddyn.

Os oes gan y person rydych yn ei helpu y galluedd i wneud ei benderfyniadau ei hun, dylech wneud yn siŵr eich bod wedi cael ei gydsyniad o'r cychwyn cyntaf.

Os nad oes gan y person y galluedd, rhaid i chi sicrhau bod yr atwrneiaeth briodol ar gyfer iechyd a llesiant yn ei lle neu fod penderfyniad wedi’i wneud a’i gofnodi mewn perthynas â lles pennaf y person.

Os ydych chi’n cynorthwyo person i gwblhau prawf sgrinio’r coluddyn, gallwch gael mynediad at wybodaeth ychwanegol gan gynnwys adnoddau hawdd eu deall neu wylio’r fideos sydd ar gael ar ein gwefan: [www.phw.nhs.wales/bowel-screening](http://www.phw.nhs.wales/bowel-screening).

Cyn gwneud y prawf gyda'r person rydych chi'n ei gynorthwyo, darllenwch y daflen a ddaeth gyda'r gwahoddiad. Mae hon yn dweud wrthych beth mae'n ei olygu a sut i wneud y prawf, a gall ei gwneud yn haws wrth egluro’r prawf i'r aelod o'ch teulu, defnyddiwr gwasanaeth neu gleient.

## Ynglŷn â phecyn prawf y coluddyn

Nid yw pecyn prawf sgrinio’r coluddyn yn dweud wrthych a oes gennych ganser y coluddyn. Mae'r prawf yn chwilio am waed cudd yn eich pŵ a all fod yn arwydd o ganser y coluddyn neu newidiadau eraill.

**Efallai y bydd angen i chi drafod sut y byddwch yn helpu'r person. Efallai y byddwch am benderfynu, ar y cyd, ar y canlynol:**

- Pryd yw'r amser gorau i wneud pecyn prawf sgrinio'r coluddyn?
- Pwy fydd yn ysgrifennu'r dyddiad ar y pecyn prawf sgrinio'r coluddyn?
- Pwy fydd yn casglu'r sampl?

Os ydych chi am gael cyngor ynghylch cynnal y prawf neu os hoffech chi gael pecyn arall, ffoniwch ein llinell gymorth rhadffôn 0800 294 3370 i siarad ag aelod o'n tîm.

**Rhai pethau pwysig i'w cofio -**

- √ Gwiriwch fod yr wybodaeth ar y pecyn prawf yn gywir
- √ Sicrhewch fod gennych feiro yn barod i ysgrifennu'r dyddiad ar y pecyn prawf sgrinio'r coluddyn
- √ Gwisgwch fenig os oes angen
- √ Golchwch eich dwylo cyn ac ar ôl gwneud y prawf
- √ Os byddwch yn gwneud camgymeriad, gallwn anfon pecyn prawf arall atoch yn y post

## Ar ôl gwneud y pecyn prawf sgrinio'r coluddyn

Dylid postio'r pecyn prawf yn ôl i'r labordy cyn gynted â phosibl ar ôl ei gwblhau.

Pan fydd y labordy yn ei dderbyn, caiff ei brofi a chaiff llythyr canlyniad ei gynhyrchu a'i bostio o fewn 7 diwrnod.

**Bydd canlyniad y pecyn prawf yn nodi un o'r canlynol:**

- nid oedd y pecyn yn addas i'w brofi a bydd pecyn prawf arall yn cael ei ddosbarthu
- mae angen ymchwiliadau meddygol pellach
- bydd y person yn cael ei wahodd yn awtomatig i gwblhau prawf FIT arall ymhen dwy flynedd os bydd yn dal i fod o fewn yr ystod oedran cymwys.

# Arwyddion a symptomau

Gall canser y coluddyn ddatblygu rhwng profion sgrinio felly mae'n bwysig bod pobl yn ymwybodol o unrhyw newidiadau yn arferion eu coluddyn. Gall sgrinio fethu â darganfod rhai canserau felly nid yw canlyniad normal yn golygu nad oes gan berson ganser y coluddyn neu na fydd yn datblygu canser y coluddyn yn y dyfodol.

Dylai'r person rydych yn gofalu amdano weld ei Feddyg Teulu os oes ganddo unrhyw un o'r symptomau canlynol:

- Gwaedu o'i ben-ôl neu waed yn ei pŵ
- Newidiadau amlwg o ran arferion y coluddyn
- Colli pwysau heb drio
- Blinder eithafol heb unrhyw reswm amlwg
- Lwmp neu boen yn ei fol

Gall y symptomau hyn gael eu hachosi gan ystod o gyflyrau a dylid eu trafod gyda gweithiwr meddygol proffesiynol ar unwaith.

Os ydych chi'n gofalu am rywun ac yn sylwi ar newidiadau yn y coluddyn, dylech drafod ei symptomau gydag ef. Os nad oes ganddo'r gallu i ddeall, dylech siarad â'i berthnasau neu weithiwr iechyd proffesiynol cyfrifol ac awgrymu ei fod yn gwneud apwyntiad gyda'i weithiwr meddygol proffesiynol. Os yw'r person yr ydych yn gofalu amdano mewn cartref gofal preswyl, cynghorir i chi drafod eich pryderon gyda rheolwr y cartref a gweithiwr meddygol proffesiynol sy'n ymweld â'r lleoliad.

# Senarios

Mae’r adran nesaf yn rhoi nifer o enghreifftiau i chi a allai fod o gymorth wrth i chi ystyried materion yn ymwneud â chydsynio a galluedd. Mae'r senarios hyn yn seiliedig ar sefyllfaoedd mewn bywyd go iawn.

## Senario 1

Mae Geoff yn 72 oed ac yn dioddef o ddementia. Cafodd ei dderbyn yn ddiweddar i gyfleuster gofal preswyl. Cafodd asesiad galluedd meddyliol yn ddiweddar mewn perthynas â’i gyllid a ddangosodd nad oedd ganddo’r galluedd i wneud penderfyniadau ariannol. Mae hanes o ganser y coluddyn yn nheulu Geoff - bu farw dau o’i frodyr o ganser y coluddyn yn gymharol ifanc. Mae gan Geoff hefyd nifer o broblemau iechyd sy'n effeithio ar ei ansawdd bywyd yn gyffredinol. Rydym wedi anfon pecyn gwahoddiad sgrinio'r coluddyn arferol a phecyn profi’r coluddyn at Geoff. Beth fydd yn digwydd nesaf?

**Pwyntiau i'w hystyried**

Am nad oes gan Geoff y galluedd i wneud penderfyniadau ariannol, ni allwn gymryd yn ganiataol nad oes ganddo’r galluedd i wneud penderfyniadau eraill. Dylid ystyried Egwyddorion 1 a 2 o’r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn ofalus.

Efallai y bydd nifer o ganlyniadau posibl i senario Geoff:

**Canlyniad 1** - Ar ôl trafod y prawf sgrinio’r coluddyn gyda Geoff, mae’r staff yn siŵr ei fod yn gallu cadw ac adalw gwybodaeth a gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth i fwrw ymlaen a chwblhau'r prawf. Gall Geoff gwblhau'r prawf yn awr.

**Canlyniad 2** - Ar ôl trafod yr holl opsiynau gyda Geoff, mae'n deall yn llawn y risgiau ac mae’n penderfynu nad yw am fwrw ymlaen â'r prawf sgrinio. Mae Egwyddor 3 y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn dweud nad yw penderfyniad ecsentrig neu annoeth yn golygu nad oes gan y person alluedd. Felly, mewn sefyllfaoedd fel hyn, rhaid cofnodi canlyniad unrhyw drafodaethau yn y cynllun gofal priodol. Dylid rhoi cyngor ac arweiniad i Geoff ynghylch optio allan o’r rhaglen sgrinio’r coluddyn yn barhaol.

**Canlyniad 3** - Os oes cred resymol bod gan Geoff ddiffyg galluedd, dylid cynnal asesiad galluedd meddyliol pellach mewn perthynas â phrawf sgrinio’r coluddyn.

Noder: Os bydd asesiad galluedd meddyliol pellach yn cael ei gwblhau, y person sy’n llenwi’r ffurflen benderfyniad briodol ar alluedd meddyliol fydd yn gyfreithiol gyfrifol am yr asesiad.

Mae’r asesiad galluedd meddyliol yn golygu bod person perthnasol (gweler isod) yn cadw’n ofalus at bum prif egwyddor y Ddeddf Galluedd Meddyliol a’r cod ymarfer er mwyn penderfynu a yw’r person a all fod heb alluedd yn medru gwneud penderfyniadau drosto’i hunan.

Er bod gofalwyr ac aelodau o'r teulu yn gallu (ac yn) cynnal asesiadau anffurfiol o ddydd i ddydd, rhaid i weithwyr iechyd, gweithwyr gwasanaethau cymdeithasol proffesiynol neu gyfreithwyr gynnal asesiadau ffurfiol.
Os ystyrir, ar ôl cynnal asesiad galluedd meddyliol pellach, nad oes gan Geoff alluedd, **rhaid** rhoi ystyriaeth hefyd i gynnal asesiad er 'lles pennaf'.

## Senario 2

Mae Malcolm yn 62 oed ac mae ganddo anabledd dysgu mân. Mae'n byw mewn amgylchedd byw â chymorth a chaiff ei gefnogi'n agos gan ei weithiwr cymorth gofal iechyd. Mae Malcolm a’i weithiwr cymorth wedi bod yn darllen yr wybodaeth a anfonwyd atyn nhw am brawf sgrinio’r coluddyn. Maen nhw hefyd wedi bod yn gweithio trwy'r deunyddiau hawdd eu deall ar-lein, sy'n egluro’n fanylach beth fydd yn digwydd. Ar ôl trafod y prawf gyda'i weithiwr cymorth, mae Malcolm yn teimlo ei fod bellach yn barod i wneud y prawf. Mae aelod o'i deulu yn meddwl bod gan Malcolm ddigon o broblemau iechyd ac mae’n dweud wrth Malcolm na ddylai drafferthu cwblhau'r cit. Beth fydd yn digwydd?

### Pwyntiau i'w hystyried

Ni ddylai neb gael ei atal rhag gwneud penderfyniad dim ond oherwydd bod eraill yn meddwl bod hyn yn annoeth. Gan fod gan Malcolm y galluedd i wneud ei benderfyniad ei hun, ei benderfyniad ef yn llwyr yw cymryd rhan mewn prawf sgrinio neu beidio.

## Senario 3

Mae Josie yn 68 oed. Mae wedi cael problemau iechyd meddwl a daeth i fyw mewn cartref preswyl yn ddiweddar. Mae gan Josie y galluedd i wneud ei phenderfyniadau ei hun. Rydym wedi anfon pecyn prawf sgrinio'r coluddyn ati. Mae ganddi farn gref nad yw am gymryd rhan mewn prawf sgrinio’r coluddyn ac mae’n teimlo y byddai’n gwybod pe byddai rhywbeth o’i le arni. Nid yw Josie wedi optio allan o’r rhaglen sgrinio’r coluddyn a derbyniodd ei phecyn prawf sgrinio’r coluddyn arferol yn ddiweddar. Mae hi wedi dweud wrth staff yn y cartref nad yw hi am gymryd rhan yn y rhaglen ac mae ei theulu yn ei chefnogi yn ei phenderfyniad.

Mae gan gynorthwyydd gofal iechyd sy'n helpu Josie hanes teuluol o ganser y coluddyn ac mae'n teimlo bod penderfyniad Josie yn un annoeth. Heb ganiatâd Josie mae'n cwblhau'r pecyn prawf ac yn ei ddychwelyd atom i'w brofi.

Pan fo Josie yn derbyn ei chanlyniadau ni all ddeall sut mae hyn wedi digwydd. Mae ei chanlyniadau yn dangos bod angen iddi wneud y prawf eto. Mae Josie yn siarad â gweithiwr iechyd proffesiynol gwahanol ac mae'n ddig na chadwyd at ei dymuniadau.

**Pwyntiau i'w hystyried**

Gan fod gan Josie y galluedd i wneud ei phenderfyniadau ei hun a'i bod wedi dweud yn glir nad yw am gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio'r coluddyn, mae'r cynorthwyydd gofal iechyd wedi torri polisïau a gweithdrefnau ei sefydliad, a’i god ymddygiad proffesiynol, os yw hwnnw’n berthnasol.

Gan fod Josie yn gwbl glir nad oedd am gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio’r coluddyn ac na roddodd ei chydsyniad, gellid dadlau fod hyn yn mynd yn groes i’w hawliau dynol, a gallai’r cynorthwyydd gofal iechyd wynebu gweithdrefn ddisgyblu.

Gan fod y cartref yn gwybod yn awr bod angen i Josie wneud ail brawf, mae 'dyletswydd gofal' ar y cartref i drafod yr opsiynau posibl gyda Josie gan barchu ei phenderfyniad i fwrw ymlaen â’r ail brawf neu beidio. Dylid cofnodi pob trafodaeth am y mater hwn yng nghynllun gofal Josie.

## Senario 4

Mae Wilf, sy’n 71 oed, yn gwella ar ôl cael strôc ac mae’n byw mewn cartref gofal preswyl. Mae staff y cartref yn ymwybodol bod galluedd Wilf i wneud penderfyniadau, oherwydd ei gyflwr, yn amrywio. Yn ddiweddar, anfonwyd pecyn prawf sgrinio’r coluddyn arferol at Wilf. Pan dderbyniodd Wilf y pecyn prawf roedd ganddo gapasiti a chwblhaodd y prawf. Dangosodd y canlyniadau fod angen i Wilf fynd i gael ymchwiliadau pellach.

Eglurodd staff yn y cartref i Wilf fod angen iddo fynd i gael ymchwiliadau pellach. Fodd bynnag, yn ystod trafodaethau roedd Wilf yn ymddangos yn ansicr a heb ddealltwriaeth o’r sefyllfa. Cysylltodd y staff â’r gweithiwr meddygol proffesiynol mwyaf priodol, a gytunodd i gynnal asesiad galluedd meddyliol. Ar ôl cwblhau hyn, ystyriwyd bod gan Wilf ddiffyg galluedd a threfnwyd cyfarfod er 'lles pennaf'.

**Pwyntiau i'w hystyried**

Mae'r cartref wedi cydnabod yn gywir bod galluedd Wilf wedi newid ac mae wedi trosglwyddo hyn i'r gweithiwr meddygol proffesiynol priodol ar gyfer cyfarfod er 'lles pennaf'. Yn y cyfarfod hwn bydd penderfyniad yn cael ei wneud er lles pennaf Wilf.

## Senario 5

Mae Elizabeth yn 73 oed ac yn byw mewn cartref gofal preswyl. Yn ddiweddar, derbyniodd ei phecyn prawf sgrinio'r coluddyn arferol gennym ni. Mae gan Elizabeth y galluedd i wneud penderfyniadau drosti hi ei hun.

Mae hi wedi gwrthod cymryd rhan mewn prawf sgrinio'r coluddyn yn gyson. Mae staff yn y cartref wedi trafod yn helaeth gydag Elizabeth a yw am gwblhau'r pecyn prawf sgrinio'r coluddyn ond mae'n penderfynu nad yw am gymryd rhan.

Mae'r gweithiwr gofal iechyd sy'n helpu Elizabeth gyda'i gofal personol wedi sylwi bod gan Elizabeth waed yn ei baw. Beth ddylai hi wneud?

**Pwyntiau i'w hystyried**

Mae Sgrinio Coluddion Cymru ar gyfer pobl iach ac nad oes ganddynt symptomau.  Gan fod Elizabeth yn gallu gwneud ei phenderfyniadau ei hun, rhaid i staff y cartref barchu hyn a pheidio â gwneud y prawf ar ei rhan.

Dylai'r gweithiwr gofal iechyd sy'n helpu Elizabeth roi gwybod i'r rheolwr cofrestredig neu berson priodol arall am hyn. Dylai hi hefyd sicrhau ei bod yn cofnodi hyn ar gynllun gofal Elizabeth.

Dylai aelod priodol o staff drafod gydag Elizabeth bod ei gweithiwr gofal iechyd wedi sylwi ar waed yn ei baw.  Dylai annog Elizabeth i ganiatáu i'r cartref wneud apwyntiad gyda'i gweithiwr meddygol proffesiynol neu gytuno bod y meddyg teulu sy'n ymweld â'r lleoliad (os yw'n berthnasol) yn siarad â hi am ei hiechyd gan y gallai fod angen gwneud ymchwiliadau pellach arni, os bydd Elizabeth yn cydsynio i hyn.

Mae'n bwysig esbonio i bobl nad yw gwaed yn eu baw o angenrheidrwydd yn golygu bod canser arnynt. Gall hyn gael ei achosi gan waedu o bolypau (tyfiannau bach) neu gyflyrau eraill megis hemoroidau (y peils).

# Cwestiynau Cyffredin

1. **Nid yw'r person yr wyf yn gofalu amdano yn gorfforol abl, ar ôl cael strôc, i gwblhau ei becyn prawf sgrinio'r coluddyn. A allaf i wneud y prawf drosto?**

Gallwch wneud y prawf ar ei ran os yw wedi gofyn i chi wneud hynny. Mae’n bwysig iawn bod y person yn deall yr wybodaeth yn y llyfryn ac y gallai cwblhau’r prawf arwain at brofion pellach yn yr ysbyty os darganfyddir gwaed yn y sampl.

I gael rhagor o gyngor ar wneud y prawf ar ran rhywun sydd ag anabledd corfforol, ffoniwch ein llinell gymorth rhadffôn ar 0800 294 3370.

2. **Mae gan y person yr wyf yn gofalu amdano ddementia. A allaf i wneud y prawf drosto?**

Mae’n bwysig iawn bod y person yn deall y gwybodaeth yn y llyfryn ac y gallai cwblhau’r prawf arwain at brofion pellach yn yr ysbyty os darganfyddir gwaed yn y sampl. Cyn belled â bod y person yn deall hyn, gallwch ei helpu i gwblhau'r pecyn prawf os yw wedi gofyn i chi wneud hynny.

Os na all y person wneud y penderfyniad hwn, rydym yn argymell eich bod yn trafod y sefyllfa gyda gweithiwr meddygol proffesiynol y person a phwy bynnag sydd ag atwrneiaeth arhosol (awdurdod cyfreithiol i weithredu) dros ei iechyd a’i lesiant. Yn dilyn hyn, bydd angen gwneud penderfyniad er ‘lles pennaf’ ar ran y person. Bydd ei weithiwr meddygol proffesiynol yn penderfynu a fyddai’r person yn elwa ar gael ei sgrinio ac a yw’n ddigon iach a ffit i fynd drwy ymchwiliadau pellach pe bai gofyn.

I gael rhagor o gyngor, cysylltwch â’r llinell gymorth rhadffôn ar 0800 294 3370.

3. **Mae'r person yr wyf yn gofalu amdano yn gwrthod gwneud ei becyn prawf sgrinio'r coluddyn ond rwyf wedi gweld gwaed yn ei faw. Beth ddylwn i ei wneud?**

Mae'r rhaglen sgrinio'r coluddyn wedi'i hanelu at bobl sy'n iach ac nid yw, fel mater o drefn, yn sgrinio pobl â symptomau.

Dylech roi gwybod i’r person eich bod wedi sylwi ar waed. Os yw’n deall eich pryderon, dylech ei annog i weld ei weithiwr meddygol proffesiynol. Os nad yw’n deall, dylech siarad â'i berthnasau ac awgrymu eu bod nhw yn gwneud apwyntiad gyda gweithiwr meddygol proffesiynol y person neu dylech gysylltu â'r meddyg teulu eich hun ac egluro eich pryderon.

4. **Nid yw'r person rwy'n gofalu amdano am gymryd rhan mewn prawf sgrinio, ond gallwn wneud y prawf pan fyddem yn ei helpu i fynd i'r toiled. A allaf i wneud hyn?**

Na allwch. Gallwch wneud y prawf ar ran rhywun arall dim ond os yw wedi gofyn i chi wneud hynny a'i fod wedi deall yn llawn y risgiau a'r manteision sy’n gysylltiedig â chwblhau hwn. Os gwnewch y prawf heb ei ganiatâd, byddwch yn gweithredu yn erbyn ei ewyllys.

5. **Mae'r person yr wyf yn gofalu amdano yn dioddef o ddolur rhydd neu rwymedd. A allaf i wneud y prawf drosto?**

Os yw'r person yr ydych yn gofalu amdano yn dioddef o naill ai ddolur rhydd neu rwymedd, byddem yn eich cynghori i aros nes bod arferion arferol y coluddyn yn ailddechrau cyn gwneud y prawf.

Os yw'r person yn profi newidiadau cyson yn y coluddyn, mae'n bwysig ei fod yn cael cyngor meddygol gan ei weithiwr meddygol proffesiynol.

6. **Rwy'n gofalu am anghenion hylendid person sy'n dioddef o anymataliaeth. A allaf i wneud y prawf drosto?**

Gallwch chi wneud y prawf os yw'r person wedi gofyn i chi wneud hynny. Mae'n bwysig iawn ei fod yn deall yn llawn y gwybodaeth yn y llyfryn ac y gallai cynnal y prawf arwain at brofion pellach yn yr ysbyty os darganfyddir gwaed yn y sampl.

Dylech gymryd sampl o ganol pŵ wedi'i ffurfio (solet). Bydd hyn yn atal y pŵ rhag cael ei halogi ag wrin a allai effeithio ar y canlyniad.

I gael rhagor o gyngor ar wneud y prawf ar ran rhywun sydd ag anabledd neu sy’n dioddef o anymataliaeth, cysylltwch â’r llinell gymorth rhadffôn ar 0800 294 3370.

7. **Mae'r person rwy'n gofalu amdano wedi symud i gartref gofal yn ddiweddar. A fydd yn dal i dderbyn pecyn prawf sgrinio'r coluddyn?**

Mae’n bwysig iawn bod y person neu aelod o’i deulu yn rhoi ei gyfeiriad newydd i’w feddyg teulu. Rydym yn cael manylion cyfeiriad yn awtomatig gan feddygon teulu, felly mae’n bwysig iawn bod cofnodion yn cael eu diweddaru i sicrhau bod pobl yn derbyn eu gwahoddiad i wneud prawf sgrinio’r coluddyn.

### 8. Mae preswylydd yn ein cartref gofal wedi marw’n ddiweddar. A oes angen i mi ddweud wrthych chi am ei thynnu o'ch cofnodion?

Nid oes angen dweud wrthym os bydd preswylydd cartref gofal yn marw gan ein bod yn diweddaru ein cofnodion yn awtomatig drwy wybodaeth gan feddygon teulu.

Mae'n annhebygol y byddwch yn derbyn pecyn prawf ar gyfer rhywun sydd wedi marw, ond os byddwch yn derbyn pecyn, dylech ddweud wrthym.

### 9. A ellir cwblhau'r pecyn prawf os yw person yn cael mislif?

Na, arhoswch hyd nes y bydd y gwaedu wedi dod i ben cyn cwblhau'r pecyn prawf.

### 10. Mae’r person rwy’n gofalu amdano wedi cael canlyniad positif - beth mae hyn yn ei olygu?

Pan gafodd y pecyn ei brofi yn ein labordy, daethant o hyd i olion gwaed yn y sampl. Nid yw hyn yn golygu bob amser bod gan y person ganser y coluddyn, ond mae'n golygu y bydd angen i'r person gael ymchwiliadau meddygol pellach i ddarganfod y rheswm dros y gwaed yn y sampl. Mae angen i’r person gael apwyntiad asesu gydag un o’n Hymarferwyr Sgrinio Arbenigol (SSP) i weld a yw’n addas i gael ymchwiliadau pellach.

### 11. Beth mae'r Ymarferydd Sgrinio Arbenigol (SSP) yn ei wneud?

Mae SSPs yn gweithio i Sgrinio Coluddion Cymru ond maent wedi'u lleoli mewn ysbytai lleol. Eu rôl yw cefnogi pobl sydd wedi cael canlyniad prawf positif ac y gallai fod angen gwneud ymchwiliadau pellach.

Bydd yr SSP yn cynnal asesiad ffôn gyda'r person a gafodd y canlyniad positif neu bwy bynnag sy'n ei gefnogi. Bydd yr asesiad hwn yn sicrhau bod y person yn addas ar gyfer ymchwiliadau pellach. Gall yr alwad ffôn hon bara hyd at awr. Os yw’r person sydd â’r canlyniad positif (neu bwy bynnag sy’n ei gefnogi) yn teimlo nad yw asesiad ffôn yn briodol, gall yr SSP gynnal asesiad wyneb yn wyneb.

Bydd yr SSP yn esbonio popeth yn glir i’r person a’i deulu neu ofalwyr ac yn trafod unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd ganddynt gyda nhw. Bydd yr SSP yn parhau i gefnogi'r person trwy'r camau nesaf.

# Manylion cyswllt

Ffoniwch Llinell Gymorth Rhadffon Sgrinio Coluddion Cymru (Llun-Gwener 08:00-17:00, ac eithrio Gwyliau Banc) ar:

**0800 294 3370**

Neu ewch i wefan Sgrinio Coluddion Cymru yn:

**https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-coluddion-cymru/**

Neu anfonwch e-bost atom:
bowel-screening@wales.nhs.uk

# Dolenni Defnyddiol

**Age Cymru**
www.ageuk.org.uk/cymru/

**Cymdeithas Alzheimer**
www.alzheimers.org.uk/

**Bowel Cancer UK**
www.bowelcanceruk.org.uk

**Carers Wales**
www.carersuk.org/wales

**Anabledd Cymru**
www.anableddcymru.org/

**Anabledd Dysgu Cymru**
www.learningdisabilitywales.org.uk/

**Deall y Ddeddf Galluedd Meddyliol**
www.gov.uk/government/publications-capacity-act-code-of-practice

**Stroke Association**
www.stroke.org.uk/home